# Bagloriaeth Cymru Uwch i Ddisgyblion


**Mae Bagloriaeth Cymru Uwch yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion atgyfnerthu a datblygu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd.**

## Creadigedd ac Arloesi Llythrennedd Cynllunio a Threfnu Rhifedd
## Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau Effeithiolrwydd Personol Llythrennedd Digidol

**Her menter a chyflogadwyedd:** Cyfle i ganolbwyntio ar baratoi at eich dyheadau o ran gyrfa yn y dyfodol, i feithrin meddylfryd arloesol a chyflwyno cysyniad/syniad arloesol yn seiliedig ar ddiwallu anghenion cwsmeriaid a/neu fusnesau.

**Prosiect unigol:** Prosiect Unigol wedi'i gyflwyno naill ai fel adroddiad ysgrifenedig (3,000 - 5,000 gair o hyd) neu fel arteffact/cynnyrch wedi'i ategu gan dystiolaeth ysgrifenedig (1,500 - 3,000 gair) ar destun ble mae dyheadau ar gyfer y dyfodol o ran addysg neu waith.

**Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar:**
**- Dystysgrif Her Sgiliau.**
**- Cymwysterau Ategol.**




*Dylai pob dysgwr gwblhau o leiaf un Her yn unigol ac o leiaf un Her mewn tîm.*

**Her dinasyddiaeth fyd-eang:** Cyfle i archwilio amrywiaeth o faterion byd-eang. Bydd angen ymateb i'r materion byd-eang a chyflwyno syniadau am atebion posibl.

**Her Cymunedol:** Cyfle i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol i'r gymuned leol, ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol, a threulio 30 awr, dros gyfnod o o leiaf pedair wythnos fel arfer, yn cyflawni'r gweithgaredd eich hun.

Mae'r Cymwysterau Ategol yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ynghyd â Mathemateg – Rhifedd unai cyn neu yn ystod y Fagloriaeth Uwch. Tra'n astudio Bagloriaeth Cymru Uwch rhaid ennill dwy gymhwyster safon uwch ar raddau A*- E neu gymwysterau cyfwerth er mwyn cyflawni gofynion Bagloriaeth Cymru Uwch.

Mae cyflawni cydrannau'n seiliedig ar allu dysgwr i fodloni'r deilliannau dysgu. Dyfernir gradd grynodol ar gyfer pob cydran:

- **Llwyddiant Lefel 3;**
- **Teilyngdod Lefel 3;**
- **Rhagoriaeth Lefel 3.**

Ysgrifennwyd y bandiau perfformiad er mwyn galluogi'r dysgwyr i ddangos eu gallu i fodloni'r deilliant dysgu. Mae tri band perfformiad yn gysylltiedig â phob cydran, gydag amrediad o dri phwynt yn cael eu dyrannu i bob un. Dylid dyrannu 0 marciau lle nad oes tystiolaeth neu'r gwaith ddim yn haeddu credyd.

| **Band Perfformiad** | Band 1 | Band 2 | Band 3 |
|---|---|---|---|
| **Pwyntiau** | 1 - 3 | 4 - 6 | 7 - 9 |

Bydd aseswyr yn dyrannu sgôr ar gyfer pob deilliant dysgu, ac yn coladu'r pwyntiau ar draws y gydran gyfan er mwyn darparu cyfanswm y sgôr. Caiff y radd grynodol ar gyfer y gydran ei chyfrifo o gyfanswm y sgôr.

# Mae'r Dystysgrif Sgiliau Uwch werth 1 lefel A (A* - E) i ddisgyblion.